## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Anstatudol)

**DYDDIAD:** 14 Gorffennaf 2022

**LLEOLIAD:** Cyfarfod rhithwir

**TEITL:** Adroddiad am y ffioedd arfaethedig ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** **Er gwybodaeth**

**CEFNDIR:**

Cyflwynwyd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 (y ddeddfwriaeth) er mwyn cael gwell amddiffyniad i les anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu fel anifeiliaid anwes. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi gofyniad ar ragor o werthwyr preifat anifeiliaid anwes i gael eu trwyddedu, er mwyn sicrhau bod amddiffyniadau lles yr anifeiliaid yn berthnasol. Maent hefyd yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch trwyddedu Siopau Anifeiliaid Anwes. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn dod â rhagor o werthwyr anifeiliaid anwes o fewn y gyfundrefn drwyddedu, ac felly'n cyflwyno strwythur ffioedd ehangach. Mae angen cytuno ar y ffioedd newydd hyn er mwyn eu cyflwyno a thrwyddedu gwerthwyr anifeiliaid anwes**.**

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

Rhoddwyd cyflwyniad i'r ddeddfwriaeth newydd drwy'r broses Ddemocrataidd yn 2021, ac mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad er mwyn rhoi cefndir llawn i'r ddeddfwriaeth.

Mae'r broses o gyfrifo ffioedd yn seiliedig ar adennill costau yn unig, ac maent yn dilyn y broses a ddefnyddir ar draws y swyddogaeth drwyddedu. Mae adolygiad o awdurdodau eraill wedi canfod bod lefel y ffioedd yn gyson.

## Ffioedd Arfaethedig

| Math o drwydded | Ffi 2022/2023 | Gorfodi | Cyfanswm Ffi'r Drwydded (yn daladwy ar wahân) |
|---|---|---|---|
| **Trwydded Lawn Newydd (bach)** | 455.00 | 45.00 | 500.00 |
| **Trwydded Lawn Newydd (canolig)** | 545.00 | 45.00 | 590.00 |
| **Trwydded Lawn Newydd (mawr)** | 645.00 | 45.00 | 690.00 |
| **Adnewyddu (bach)** | 405.00 | 45.00 | 450.00 |
| **Adnewyddu (canolig)** | 450.00 | 45.00 | 495.00 |
| **Adnewyddu (mawr)** | 500.00 | 45.00 | 545.00 |
| | | | |
| **Ymweliad ymgynghori - swyddog** | 45 yr awr | | |
| **Ymweliad ymgynghori - milfeddyg** | Y gost gyfredol | | |
| | | | |
| **Nodiadau** | | | |
| Bach – gwerthu fel hobi gan fod â 10 neu lai o anifeiliaid (200 pysgodyn) ar werth ar unrhyw adeg penodol | | | |
| Canolig – gwerthu fel hobi gan fod â mwy na 10 o anifeiliaid, ac eiddo masnachol bychan | | | |
| Mawr – eiddo masnachol mawr | | | |

Mae'r ffi gorfodi wedi'i chynnwys yn ffioedd 2022/2023 er mwyn talu am y gwaith ychwanegol y mae'n rhaid i'r awdurdod ei wneud i nodi'r rheiny sy'n gweithredu heb drwydded. Wrth i weithredwyr nad oeddent o'r blaen yn gorfod cael trwydded "ymuno", yna bydd yr angen am y ffi hon yn lleihau. Rhestrir y taliadau gorfodi ychwanegol yn y ddeddfwriaeth.

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam**

Mae'r ddeddfwriaeth yn ofyniad statudol

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

***Crynodeb:***

**Hirdymor:** Diogelu'r Cyhoedd, mae lles anifeiliaid yn ddyletswydd statudol ar yr awdurdod ac yn cyfrannu at y nodau Llesiant sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | |
|---|---|
| **Integreiddio:** | Mae gweithgarwch Diogelu'r Cyhoedd yn cyd-fynd ag amcanion partneriaid iechyd ac yn cyfrannu at nifer o'r nodau Llesiant sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **Cydweithio:** | Mae Diogelu'r Cyhoedd yn cydweithio'n helaeth ag asiantaethau partner gan gynnwys yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Awdurdodau Lleol eraill, Heddlu Dyfed-Powys, Llywodraeth Cymru, yr RSPCA |
| **Cynnwys:** | Mae gweithgarwch gorfodi Diogelu'r Cyhoedd yn dechrau drwy wneud gwaith ymgysylltu ac annog, a hyrwyddo cydymffurfio â deddfwriaeth. |
| **Atal:** | Mae pwyslais ar atal gan fod prosesau yn sicrhau bod nifer o wiriadau a mesurau diogelu ar waith cyn i weithgaredd gael ei ganiatáu neu ei drwyddedu. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 10 Gorffennaf 2022 i gael penderfyniad. |

| | |
|---|---|
| **ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):** | Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig. |
| **RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):** | Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig. |

| | |
|---|---|
| **Enw cyswllt:** | **Heddwyn Evans** |
| **Swydd:** | **Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | **9fed Mehefin 2022** |
| **Papurau Cefndir:** | Adroddiad y Cabinet ar gyflwyno Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021. |